

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

Canolfan Addysg Gofal Iechyd

Astudiaethau israddedig mewn

# Nyrsio

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Sut i wneud cais | t.4 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2020
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Medi 2021), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso



Yma yn Aberystwyth rydym yn ymfalchïo mewn darparu profiad dysgu sy'n eich helpu i ddeall yr hyn sydd ei angen i gynnig gofal nyrsio o'r radd flaenaf.

Mae nyrsys Prifysgol Aberystwyth yn dathlu amrywiaeth, yn ymwneud yn rhagweithiol â'u taith ddysgu ac mae ganddynt yr hyder a'r hyblygrwydd i arwain a darparu gofal iechyd mewn lleoliadau gwledig a threfol. Maent yn deall cod ymarfer proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a sut mae'n llywio'r dull o fynd ati bob dydd i ddarparu gwasanaeth nyrsio proffesiynol.

Mae'r rhaglen nyrsio ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig profiad dysgu penodol ac agos-atoch chi. Mae'r gymuned a'r amgylchedd lleol wedi ein cynorthwyo i siapio'r cwricwlwm. Mae Aberystwyth yn dref prifysgol ddwyieithog, eangfrydig a bywiog rhwng ucheldiroedd eang y Canolbarth a glannau prydferth Bae Ceredigion. Byddwch yn teimlo'n rhan o'r gymuned a chewch astudio ar gampws sydd â'i ganolfan chwaraeon ei hun a Chanolfan Gelfyddydau brysur; gerllaw mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, un o ddim ond pum llyfrgell hawlfraint yn y Deyrnas Unedig.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau dysgu am hanfodion gwaith nyrsio. Erbyn diwedd y rhaglen byddwch yn deall sut brofiad yw cael rhywun yn gofalu amdanoch, a hynny drwy ymwneud â'n defnyddwyr gwasanaeth a'n gofalwyr arbennig sy'n ein cynorthwyo i ddarparu'r rhaglen. Byddwch yn dysgu sut mae gofal, trugaredd, cyfathrebu, ymroddiad a gallu yn cael dylanwad aruthrol ar brofiadau'r rheini y cawn y fraint o ofalu amdanynt.

Mae Canolfan Addysg Gofal Iechyd Prifysgol Aberystwyth yn newydd sbon, ac mae'n cynnwys Uned Sgiliau Clinigol, sef ystafelloedd efelychu hollol fodern lle gall myfyrwyr ddysgu ac ymarfer sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Mae 50 y cant o'r rhaglen gyffredinol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ac os nad ydych yn siarad Cymraeg a bod arnoch eisiau dysgu'r iaith, mae'r rhaglen yn cynnig hefyd wersi sgwrsio Cymraeg ym maes iechyd trwy gyfrwng 'cornel coffi a chlonc'.

Fel nyrs, fe fydd galw o hyd am eich sgiliau, a bydd eich profiadau dysgu yn ystod eich cwrs gradd yn eich galluogi i ddatblygu eich hunanymwybyddiaeth, eich hyder a'ch arbenigedd clinigol. Mae nyrsio yn broffesiwn hyblyg, ac mae cyfleoedd gwaith i'w cael mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a thrydyddol, gwasanaethau cymunedol, addysg, ymchwil, rheolaeth, twristiaeth, diwydiant, y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac mewn mudiadau gwirfoddol ac elusennol. Wedi ichi gymhwyso bydd llu o gyfleoedd ar gael i'ch cynorthwyo i ddatblygu eich gyrfa, gan gynnwys swyddi ym maes rheoli ac ym maes ymarfer ac ymchwil clinigol uwch ac arbenigol.

Bydd croeso cynnes yma ichi gyd.

**Sally Hore**
**Prif Arweinydd Addysg Gofal Iechyd**



# Nyrsio

50% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh)

| | |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | **(B760, B76P)** |
| **Oedolion** | **(B740, B74P)** |

Mae nyrsio yn fwy na gyrfa anhygoel a gwerth chweil. Mae'n daith broffesiynol, yn llawn profiadau gwerthfawr. Mae nyrsys yn cyffwrdd â bywydau pob math o bobl o bob cefndir, pan fydd y bobl hynny mewn angen. Rydyn ni'n darparu gofal holistig, caredigrwydd a thosturi ar adegau mae pobl a'u teuluoedd ar eu mwyaf bregus. Bydd nyrsio yn rhan o'ch hunaniaeth, a bydd y daith hon yn llawn emosiynau a phrofiadau dwys, ond fe fydd yn gwbl werth chweil.

Bydd y rhaglenni arloesol hyn ym meysydd nyrsio oedolion a nyrsio iechyd meddwl yn eich dysgu am ofal holistig a gofal sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, a sut i'w gymhwyso'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd clinigol. Cewch brofiad o nifer o leoliadau ymarfer gwahanol gyda'n Partneriaid Dysgu Ymarfer.

Os ydych yn fyfyriwr amser llawn, yn cymryd rhaglen nyrsio tair-blynedd (maes iechyd oedolion neu iechyd meddwl), bydd disgwyl ichi wneud 37.5 awr yr wythnos o astudio yn ystod yr wythnosau theori, a 37.5 awr yr wythnos pan fyddwch ar leoliadau ymarfer. Bydd y theori yn cael ei gyflwyno ar sawl ffurf wahanol i fod yn addas i bob dull o ddysgu, gan gynnwys darlithoedd arweiniol, seminarau, gweithdai, grwpiau bach, efelychu sgiliau clinigol, dysgu cyfunol ar-lein, ac astudio hunan-gyfeiriedig.

Rhennir y rhaglen amser llawn yn gyfartal rhwng wythnosau theori ac wythnosau ymarfer, i gyfanswm o 4,800 awr o ddysgu.

Ym maes nyrsio cyn-gofrestru, rydym yn defnyddio blwyddyn tri semester, yr un peth â'r flwyddyn ysgol. Felly, bydd pob blwyddyn neu bob rhan o'ch rhaglen astudio yn dechrau yn gynnar ym mis Medi cyn i fyfyrwyr y rhan fwyaf o'r rhaglenni eraill gyrraedd y Brifysgol, a bydd yn parhau tan ddiwedd mis Gorffennaf ymhob blwyddyn academaidd.

**Cyflogadwyedd**

Mae nyrsio yn broffesiwn hyblyg, ac mae cyfleoedd gwaith i'w cael mewn gofal sylfaenol, gofal eilaidd a thrydyddol, gwasanaethau cymunedol, addysg, ymchwil, twristiaeth, diwydiant, y sectorau cyhoeddus a phreifat, mudiadau gwirfoddol ac elusennol - yma ac yn rhyngwladol.

Comisiynwyd y lleoedd astudio ar y rhaglen hon gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a bydd y cyllid i dalu ffioedd dysgu yn unol â Chynllun Bwrsariaethau GIG Cymru. Bydd yn rhaid i chi ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl cymhwyso a chofrestru yn nyrs gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Rheolir y drefn hon yn ganolog gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a bydd y Cynllun Symleiddio i Fyfyrwyr yn gwneud yn sicr y cewch eich rhoi mewn sefyllfa addas o'ch dewis yn yr ardal a nodwyd gennych.

## Modiwlau craidd

**Modiwl 1: Introduction to Professional Practice (Rhan 1)**

Modiwl yw hwn sy'n cwmpasu'r meysydd. Mae'n cyflwyno cysyniad nyrsio, ymarfer proffesiynol a gofal holistig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Canolbwyntir ar feithrin dealltwriaeth o ddatblygiad dynol, ffarmacoleg sylfaenol ac ymarfer nyrsio proffesiynol. Bydd cyfathrebu - llafar ac ysgrifenedig - yn cael eu hastudio yn ogystal ag arferion myfyrgar i gynyddu hunan ymwybyddiaeth.

**Modiwl 2: Developing Professional Practice (Rhan 1)**

Modiwl sy'n cwmpasu'r meysydd ac yn datblygu ymhellach gysyniad nyrsio, ymarfer proffesiynol a gofal holistig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn trafod cysyniadau yn gysylltiedig â dylanwadau ehangach ar iechyd a lles. Cyflwynir sgiliau allweddol ar gyfer gofalu am ddefnyddwyr y gwasanaeth ar hyd eu hoes mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan bwysleisio sut i ateb gofynion corfforol ac emosiynol.

**Modiwl 3: Understanding the Human Body (Rhan 1)**

Modiwl yn cwmpasu meysydd sy'n datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r corff dynol. Trwy ddulliau systematig, astudir anatomeg, ffisioleg, pathoffisioleg ac anhwylderau cyffredin gan ystyried sut mae'r wybodaeth hon yn rhoi sail i ymarfer nyrsio a gofal holistig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff myfyrwyr eu hannog i ystyried effeithiau'r rhain ar ddefnyddwyr unigol y gwasanaeth trwy ddefnyddio 'teulu rhithiol'.

**Modiwl 5: Introduction to Field Specific Nursing (modiwlau Iechyd Oedolion ac Iechyd Meddwl - Rhan 2)**

Modiwlau penodol i'r maes sy'n cyflwyno cysyniadau allweddol nyrsio oedolion neu nyrsio iechyd meddwl. Canolbwyntir ar feithrin dealltwriaeth o'r wybodaeth sy'n sylfaen i'r maes, archwilio cyflyrau cyffredin, pathoffisioleg waelodol, prosesau clefydau a rheoli symptomau. Astudir sgiliau sy'n gysylltiedig â gofalu am ddefnyddwyr y gwasanaeth ar draws cylch oes, a bydd hyn yn canolbwyntio ar bolisïau gofal, egwyddorion cyfreithiol, moesegol a moesol, yn ogystal ag edrych ar y broses heneiddio a fydd yn cynnwys cysyniadau cymdeithasol a diwylliannol.



**Modiwl 6: Complex Field Specific Nursing (modiwlau Iechyd Oedolion ac Iechyd Meddwl - Rhan 2)**

Modiwlau penodol i'r maes sy'n astudio gofynion gofal cymhleth defnyddwyr y gwasanaeth sydd ag aml batholegau a chlefydau cymhleth sy'n cyfyngu ar fywyd, a gweld sut y gellir ateb gofynion corfforol ac emosiynol. Canolbwyntir ar ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach ynglŷn â rheoli symptomau mewn sefyllfaoedd gofal cymhleth a sut mae hyn yn bwydo i ymarfer nyrsio oedolion/iechyd meddwl, yn ogystal â dysgu'r sgiliau allweddol angenrheidiol. Bydd marwolaeth a marw yn cael eu hystyried hefyd fel damcaniaethau allweddol yn gysylltiedig â galaru a normau cymdeithasol/diwylliannol.

**Modiwl 7: Pathophysiology of Common Conditions (modiwlau Iechyd Oedolion ac Iechyd Meddwl - Rhan 2)**

Modiwl yn cwmpasu meysydd, a fydd yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anatomeg, ffisioleg, pathoffisioleg a ffarmacoleg dynol a bydd yr wybodaeth hon yn sail i ymarfer nyrsio. Gan ddefnyddio dull seiliedig ar achosion, anogir myfyrwyr i astudio anhwylderau cyffredin ymhellach ac ystyried sut y gallant effeithio ar ddefnyddwyr unigol y gwasanaeth trwy ddefnyddio'r 'teulu rhithiol'.

**Modiwl 9: Compassionate Leadership and Management (Rhan 3)**

Modiwl yn cwmpasu'r meysydd, yn cyflwyno egwyddorion a sgiliau craidd sy'n sail i arwain â thosturi a rheoli'n effeithiol. Dywedir bod arwain a rheoli yn hanfodol i lwyddiant polisïau iechyd y dyfodol, er mwyn datblygu ymarferwyr a all ysgogi newid, ymrymuso ac arwain trwy esiampl, yn ogystal â chreu amgylchfyd lle mae arloesi a gwelliannau parhaus yn gwella ansawdd y gwasanaethau iechyd a gofal.

**Modiwl 10: Innovating Practice (Rhan 3)**

Modiwl sy'n cwmpasu'r meysydd. Cyflwynir yr egwyddorion sylfaenol sy'n waelodol i greadigrwydd, arloesi a newid mewn ymarfer er mwyn cyfoethogi gofal holistig tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae nyrsys cofrestredig yn gwneud cyfraniad allweddol i'r broses barhaus o fonitro a gwella ansawdd gofal a thriniaethau er mwyn gwella canlyniadau iechyd a sicrhau profiad cadarnhaol i gleifion. Canolbwyntir ar astudio strategaethau i fonitro ansawdd, ac i ystyried sut i hyrwyddo arloesi mewn gofal iechyd trwy egwyddorion gwella ansawdd.

**Modiwl 11: Transition to Autonomous Practitioner (modiwlau Iechyd Oedolion ac Iechyd Meddwl - Rhan 3)**

Modiwlau penodol i'r maes sy'n ailymweld â chysyniadau allweddol gwaelodol nyrsio, rheoli meddygol, ymarfer proffesiynol a gofal holistig unigol. Canolbwyntir ar ystyried y daith ddysgu hyd yn hyn ac ar wneud archwiliad beirniadol o barodrwydd y myfyriwr i fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig annibynnol sydd â hyder i ddarparu gofal nyrsio diogel, effeithiol holistig yn canolbwyntio ar y claf.

**Modiwlau Lleoliad Ymarfer:**

- Modiwl 4: Demonstrating Professional Practice (Rhan 1)*
- Modiwl 8: Enhancing Professional Practice (Rhan 2)*
- Modiwl 12: Leading Professional Practice (Rhan 3)*

Yn ystod y rhaglen tair blynedd, cynhelir naw lleoliad i gael profiad ymarfer (tri bob blwyddyn). Canolbwyntir ar ddatblygu'r sgiliau a'r nodweddion sy'n gysylltiedig ag ymarfer nyrsio proffesiynol er mwyn ichi allu darparu gofal nyrsio tosturiol a diogel. Cewch eich cynorthwyo yn y lleoliad gan Arolygwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer. Bydd myfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr clinigol er mwyn ennill medrau y cytunir arnynt sy'n adlewyrchu'r sgiliau sy'n rhaid i nyrsys cofrestredig eu dangos wrth ofalu am bobl o bob oed ac ar draws bob sefyllfa gofal.

* Cynigir y modiwlau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** BSc

**Cod UCAS:**
**Iechyd Meddwl** - B760 (amser llawn), B76P (rhan-amser).
**Oedolion** - B740 (amser llawn), B74P (rhan-amser).

**Hyd:** 3 blynedd (amser llawn), 4 blynedd (rhan-amser).

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 104 - 96
**BR:** 28-26.

**APeL/RPL (Derbyniadau cyd-destunol):**

- Cyflwyno portffolio o dystiolaeth sy'n dangos lle mae eich profiad a'ch dysgu blaenorol yn sefyll yng nghyd-destun canlyniadau dysgu'r modiwlau (modiwlau 1, 2, 3, 4 a Rhan 1 y rhaglen).
- Cadarnhad o oriau ymarfer (800 awr dros y ddwy flynedd ddiwethaf)
- Tystiolaeth o fapio cyfarwyddeb EC ym maes gofal cyffredinol (gofal Oedolion)
- Hyfforddiant gorfodol yn cydymffurfio â'r hyn a nodwyd gan eich cyflogwr, sy'n cyfateb i sgiliau'r rhaglen a fapiwyd ar gyfer Rhan 1.
- Cais a chymeradwyaeth am gyfnod astudio, a chytundeb y rheolwr llinell
- TGAU (neu gymhwyster cyfwerth) - o leiaf C/4 mewn Cymraeg/Saesneg Iaith a Mathemateg.

Yn achos ceisiadau APeL, codir tâl fel arfer am gefnogaeth ac asesiadau academaidd. Cytunir ar hyn yn unol â nifer y credydau i'w hachredu ar sail dysgu blaenorol.

**Gofynion Ychwanegol:**

- Gwiriad Iechyd Galwedigaethol
- Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Iechyd Da ac asesiad o Gymeriad Da (ar ôl derbyn cynnig i astudio gyda ni).

**Cyfweliad:** Yn unol â dull Unwaith i Gymru, bydd y rhai sy'n ateb y gofynion mynediad yn cael eu gwahodd i Achlysur Dewis Myfyrwyr.

# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!








Canolfan Addysg Gofal Iechyd,
Prifysgol Aberystwyth,
Ffordd Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion SY23 3DU

nrsstaff@aber.ac.uk

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2021.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%